Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019** |
| **DYDDIAD** | **13 Chwefror 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**
Bydd y rheoliadau'n diwygio:

- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (OS 2015/102)
- Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016 (OS 2016/273)
- Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 (OS 2016/274)

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.**
Ni fydd effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad nac ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Diben y diwygiadau**
Mae'r offeryn statudol yn diwygio Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 (yr "OS cyntaf") er mwyn dileu effaith y newidiadau a wnaeth yr OS cyntaf i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (OS 2015/102), Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016 (OS 2016/273) a Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 (OS 2016/274) a ddileodd ddarpariaethau sy'n ymwneud â chytundebau rhyngwladol y mae'r UE yn rhwym wrthynt. Nid yw'r offeryn statudol yn creu rhwymedigaethau rhyngwladol newydd – ei ddiben cyffredinol yw cynnal a chadw effaith y cytundebau rhyngwladol y mae'r UE yn rhwym wrthynt (ond nid yn gilyddol) a gafodd eu dileu gan yr OS cyntaf.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/PkKvpuFu

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y

diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes gennym unrhyw bryderon o ran polisi ynghylch y diwygiadau.